OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 717

# Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2007

## RHAN 2

Llygryddion Grŵp A a Grŵp B ac osôn

PENNOD 1

Safonau ansawdd aer

**Rhagarweiniad a chymhwysiad**

**4.**—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys mewn perthynas â'r llygryddion canlynol—

(a) Llygryddion Grŵp A;

(b) Llygryddion Grŵp B; ac

(c) osôn.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod yr holl fesurau a gymerir o dan Pennod 2 neu 3 o'r Rhan hon—

(a) yn rhoi ystyriaeth i ddull integredig o weithredu mewn perthynas â diogelu aer, dŵr a phridd; a

(b) ddim yn cael unrhyw effaith negyddol ar—

(i) unrhyw Aelod-wladwriaeth arall, neu

(ii) unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig.

**Parthau a chrynoadau**

**5.**—(1) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, at ddibenion y Rhan hon, rannu tiriogaeth Cymru yn barthau.

(2) Bydd parth yn cael ei ddosbarthu fel crynhoad at ddibenion y Rhan hon lle—

(a) mae'n cynnwys poblogaeth o dros 250,000 o breswylwyr; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, mae ganddo ddwysedd poblogaeth y $km^2$ y mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn y gellir cyfiawnhau dosbarthiad o'r fath.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol sefydlu gwahanol barthau ar gyfer gwahanol lygryddion lle y mae'n barnu bod hynny'n briodol.

**Safonau ansawdd aer**

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), mae'n ofynnol i'r safonau ansawdd aer canlynol a nodwyd yn Atodlen 1 gael eu cyrraedd ym mhob parth—

(a) ar gyfer llygryddion Grŵp A, y gwerthoedd terfyn sydd wedi eu nodi yn Rhan 1 o'r Atodlen honno;

(b) ar gyfer llygryddion Grŵp B, y gwerthoedd targed sydd wedi eu nodi yn Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) ar gyfer osôn, y gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor sydd wedi eu nodi yn Rhan 4 o'r Atodlen honno.

(2) Y dyddiad cyrhaeddiad ar gyfer gwerth terfyn neu darged yw—

(a) dyddiad cyrhaeddiad a nodwyd ar gyfer y llygrydd perthnasol yn Atodlen 1; neu

(b) lle nad oes dyddiad cyrhaeddiad wedi ei nodi, y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) Mae'r amcanion hirdymor i'w cyflawni yn yr hirdymor, i'r graddau y gellir cyflawni'r amcanion hyn trwy'r mesurau sy'n ofynnol gan reoliad 7(3)(b).

(4) Yn achos bensen a nitrogen deuocsid, mae'r ffiniau goddefaint a nodwyd yn Rhan 2 o Atodlen 1 yn gymwys yn y cyfnodau a bennir.